Status: *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1948 (Cy.214)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*29 Gorffennaf 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*5 Awst 2011*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 108(2)(b)(iii), (3)(c) a (5) i (11) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011 a daw i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys at ddibenion canfod cyraeddiadau ym meysydd dysgu perthnasol plant sydd yn y flwyddyn olaf o'r cyfnod sylfaen.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

(4) Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002(**2**) wedi ei ddirymu.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "deilliannau cyfnod sylfaen" ("*foundation phase outcomes*") yw'r deilliannau a nodir yn y ddogfen;

(**1**) 2002 p.32. Diwygiwyd is-adran (2) o adran 108 gan adran 21(1) a (7)(a) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5). Diwygiwyd is-adran (6) o adran 108 gan O.S. 2010/1158 ac is-adran (11) gan baragraffau 11 i 13 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).

(**2**) O.S. 2002/45 (Cy.4).